Jeb
21·7·80

# MARWNAD

ER COFFADWRIAETH

AM Y DIWEDDAR BARCHEDIG

# WILLIAM HAVARD,

O SIR FRYCHEINIOG,

*Yr hwn a ymadawodd a'r byd hwn Awst 7fed,* 1851, *ac a gladdwyd yn Pontfaen, Brycheiniog, ar y* 13*eg o Awst*, 1851, *yn* 71 *mlwydd oed.*

*Pregethodd y Parch. Thomas Elias ar yr achlysur oddiwrth Phil. i.* 23.

"Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig."
SOLOMON.

GAN DAVID WILLIAMS,

MERTHYR CYNOG.

*Cymmeradwywyd gan Gyfarfod Misol Sir Frycheiniog, a gynnaliwyd yn Llangorse, Medi 25 a 26, 1851.*

PONTYPRIDD:

ARGRAFFWYD GAN WILLIAM JONES.

1851.

# MARWNAD, &c.

1 Mae newyddion anghysurus,
I'w cael yma'n fynych iawn;
Rhai y bore, rhai ganol-ddydd,
A rhai eraill y prydnhawn.
Rhai am groesau a cholledion,
A thrallodau yn ddilai,
Rhai am gystudd sydd yn rhwymo,
Ein cyfeillion anwyl rai.

2 A rhai eraill sydd am angau,
Brenin dychrynfeydd y byd,
Yn ei arfau sydd yn tramwy
Ar y ddaear hon o hyd;
Ac yn taro yn ddi-rybudd
Rhai yn fynych yn y tir,
Ac mae hyn yn peri syndod,
Ac i rai bydd galar hir.

3 Ond o'r diwedd fe ddaeth newydd
Tra galarus 'nawr i'm clyw,
Fod y brawd Parchedig Havard,
Wedi gado tir y byw.
Gwedi i mi glywed hyny,
Fe aeth dagrau lawr yn lli,
Ac mae llawer fel fy hunan
Yn dyrchafu chwerw gri.

4 Briw galonau sydd gan luoedd
Trwy'n hardaloedd yma a thraw,

Ac mae dagrau heillt yn disgyn
Ar y ddaear fel y gwlaw;
A rhyw riddfan sydd i'w glywed
Gan rhyw dyrfa ar y llawr,
Am ei roddi ef i orwedd,
Hyd yr adgyfodiad mawr.

5 Bu uwch hanner cant o flwyddau,
Yn nhy Ion yn dda ei foes,
A cha'dd gymhorth yn bur amlwg,
Ganddo Ef i godi'r groes,
Bu 'rhan fwyaf o'r rhai hyny
Yn was cyhoedd gyda'r gwaith,
Ac fe gadwodd ef ei goron,
Heb ogwyddo ar ei daith.

6 Rhoddwyd awydd yn ei galon
Am fynegu y gwir oll,
I hil Adda sydd resynol,
Aeth yn Eden gynt ar goll;
Ac fe dd'wedai yn bur fedrus
Am effeithiau'r codwm cas,
Ac am ormes y diafol
Ar drigolion daear las.

7 Ac am gariad y Jehofa,
Draw yn nhragwyddoldeb mawr,
Iddo gofio mewn trugaredd
Am hil Adda ar y llawr;
I'r Tad roddi ei Fab anwyl,
I ddyoddef ar y groes,
Dros rhai euog oedd yn haeddu
Fod dan ing a bythol loes.

8 A bod Iesu wedi talu,
Yr holl ddyled fawr i gyd,
A gorchfygu gyda hyny
Ei elynion yr un pryd;

Ac fe waeddodd ef "Gorphenwyd"
Pan fu farw yn ein lle,
Ac fe dd'wedai'r Tad "Boddlonwyd,"
Yn rhydd bellach gollwng E'.

9 Ac mae'r Ysbryd i gymeryd,
A mynegi eiddo Crist,
I rai euog sy'n galaru,
Mewn gwir edifeirwch trist;
Yn ei nerthu i ymddiried
Eu holl achos iddo ef,
A rhoi awydd iddynt rhodio
Yn ol deddfau pur y nef.

10 Clywais ef yn gwir dderchafu
Iesu Grist yn Geidwad rhad,
Ac yn gwahodd pechaduriaid
I ymostwng wrth ei draed,
Am faddeuant o'u pechodau,
A chael cymod llawn ag ef,
A'u haddasu yn ei haeddiant,
I gael myn'd i'r drydedd nef.

11 Gwaeddai hefyd o ben Sinai,
Gwae rhai anwir, beilch, a drwg,
Mae IOR meddai atoch beunydd,
Yn ddiammheu yn dal gwg.
O gochelwch ffyrdd annuwiol,
Sydd yn arwain yn y bla'n,
Y rhai sydd yn rhodio ynddynt
I drag'wyddol boethlyd dân.

12 Ac fe daer weddiau drostynt
Ar i Dduw o'i ryfedd ras,
Eu dwyn allan o dywyllwch,
Ac o faglau'r gelyn cas:
A rhoi iddynt ffydd i gredu
Yn y Gwr fu ar y groes,
Rhwng troseddwyr yn dyoddef,
Dros euogion farwol loes.

13 Yn Nghaerludd ac yn Nghaerodor,
Bu yn barchus yn ei oes,
A thrwy ddeheudir a gogledd
Bu'n derchafu Crist a'i groes,
Yn wir Geidwad pechaduriaid,
Ac i'r penaf o'r rhai hyn,
Iddo rhoi ei hun yn aberth,
Drostynt ar Galfaria fryn.

14 Diwyd ydoedd gyda'r achos,
Gallaf dd'wedyd hyn yn rhydd,
Fe bregethai yr efengyl
Wedi'r nos ac yn y dydd ;
Nid oedd gwlaw, na rhew, nac eira,
Na thywyllwch nos ychwaith,
A'i hattaliai ef rhag glynu,
Yn bur gyson gyda'r gwaith.

15 Ond er mor ddefnyddiol ydoedd,
Ar y ddaear gyda'r gwaith,
Gwnaeth ein gadael yn yr anial,
A chyrhaeddodd ben ei daith.
Yn mis Awst, yn hwyr y seithfed,
O dref Talgarth aeth yn rhydd,
O wlad y cymylau tewion,
I wlad o drag'wyddol ddydd.

16 Yn y flwyddyn o oed Iesu,
'R hwn fu farw ar y bryn,
Mil wyth cant a phump o ddegau
Ac un eto sydd at hyn ;
Y pryd hyny y daeth engyl,
Gyda brys o'r nef i lawr,
I'w ddwyn adreu yn ddiogel
At y gynnulleidfa fawr.

17 Sydd a'u gynau wedi golchi,
A'u gwir gànu oll yn wyn,
Yn y ffynnon a agorwyd,
Draw ar ben Calfaria fryn :

I lanhau hen blant y codwm,
Nad oes arnynt un man glan,
Nes y byddant yn y diwedd,
Yn wyn oll fel eira mân.

18 Fe aeth Havard o'i drwm gystudd,
I'r orphwysfa dawel draw,
Nid oes yno unrhyw gystudd,
Nac un groes i beri braw,
A phob galar gwedi darfod,
A thangnefedd yn eu lle,
A llawenydd sydd yn llenwi,
Holl drigfannau pur y ne.

19 Mae ef heddyw'n berffaith sanctaidd,
Fel dymunodd yn y byd,
Gyda phatrieirch y cynoesoedd,
A phroffwydi oll i gyd;
A disgyblion, apostolion,
Yno sydd yn dyrfa lan,
A thorf fawr o hen ferthyron,
Aeth o'r byd trwy ganol tân.

20 Ac mae'n tadau anwyl hefyd,
Yn cyduno gyda hwy,
Maent yn berffaith wrth eu boddau,
Nid oes arnynt glais na chlwy;
Yr hen bla a'u llwyr adawodd,
Tna rhyd yr afon gref,
Ac ni welan' byth o hono,
Yn rhoi troed o fewn i'r nef.

21 Ond mae Iesu Grist yn eistedd,
Yno ar ei orsedd wen,
A'i cgoniant sydd yn llenwi
Holl drigfannau'r byd uwch ben;
Hwythau yno'n gwel'd ei wyneb,
Heb un cwmwl arno'n bod,
Ac mae'r dyrfa yn cyduno
I roi iddo ef y clod.

22 Maent yn moli'r Drindod santaidd,
Am eu caru cyn eu bod,
Am eu prynu, am eu galw,
A rhoi arnynt hwy ei nod;
Am eu cyfiawnhau a'u dilyn,
Trwy'r anialwch maith ymla'n,
A'u dwyn adre yn y diwedd,
Ato ef i Seion lân.

23 Mae ei gorph ef 'nawr yn gorwedd,
Obry yn y dywell fedd,
Ond fe godir hwn i fynu,
Y dydd olaf ar ei wedd;
I fyn'd adre at ei enaid,
Mwy am drag'wyddoldeb maith,
A chlodfori yn ddiflino,
Hyny fydd ei hyfryd waith.

24 'Nawr dymunaf wrth rhoi fynu,
Fendith ar ei blant i gyd,
Dyged Ior bob un o honynt
Yn ei ddydd i'w gorlan glyd;
Cofied hefyd am ei wyrion
Sydd yn codi ar ei ol,
A chymered hwy yn fore,
Yn bur gynes yn ei gol.

25 Boed i ninnau bawb o honom,
Gael ein deffro mewn iawn bryd,
I ddwys lefain am y trysor,
Bar yn hwy na phethau'r byd,
Sydd yn nghadw yn ddiogel
Yn y nef tu draw i'r llen,
Gafael arno rhoed yr Arglwydd,
O'i ras i ni oll. Amen.

Gwr ffyddlon, cyfion, cofier—oedd William,
A dinam was Wiwner,
A dyn syml fu dan y ser,
Glân dyst o galon dyner.

Mewn hedd ei ddiwedd a ddaeth—i fudo,
O fyd y gymmysgaeth;
I dda hylan wledd helaeth,
I'r fawr orawr fry yr aeth.

DIWEDD.

*Argraffwyd gan William Jones, Pontypridd.*